

# Traphont Abermaw / Barmouth Viaduct

Medi / September 2020

## Adfer strwythur eiconig

Rydym yn cyflawni'r gwaith adfer mwyaf ar Draphont Abermaw yn ei hanes. Bydd ein gwaith uwchraddio gwerth £25 miliwn yn diogelu'r bont, sy'n agos at galonnau llawer o bobl, am genedlaethau i ddod ac yn cadw ei golwg odidog. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Cadw, Cyngor Sir Gwynedd a rhanddeiliaid eraill ers sawl blwyddyn er mwyn datblygu ein cynlluniau a chytuno arnynt.

Mae ein contractwyr, Alun Griffiths, wedi bod yn sefydlu'r compowndiau ar y safleoedd ers mis Mehefin er mwyn paratoi ar gyfer y gwaith mawr ym mis Hydref, pan fyddwn yn ailosod nifer fawr o'r rhannau pren ar y draphont.

I'ch atgoffa, bydd Traphont Abermaw ar gau am 16 diwrnod tra byddwn yn cyflawni ein gwaith adfer, o 23:40 ar 16 Hydref hyd 5:30 ar 2 Tachwedd. Byddwn hefyd yn cau'r bont a'r llwybr troed er mwyn gwneud gwaith ar y dyddiadau canlynol:

- O 00:10 hyd 10:10 ar fore Sul 6 Medi
- O 23:40 ar nos Sadwrn 12 Medi hyd 09:55 ar fore Sul 13 Medi
- O 00:10 hyd 10:10 ar fore Sul 20 Medi
- O 23:15 ar nos Sadwrn 26 Medi hyd 09:15 ar fore Sul 27 Medi
- O 00:10 hyd 10:10 ar fore Sul 4 Hydref
- O 23:15 ar nos Sadwrn 10 Hydref hyd 10:10 ar fore Sul 11 Hydref


## Restoring an iconic landmark

We are carrying out the biggest restoration of Barmouth Viaduct in its history. Our £25m upgrade will protect the well-loved bridge for generations and maintain its magnificent appearance. We've been working closely with Cadw, Gwynedd County Council and other stakeholders over several years to develop and agree our plans.

Our contractors Alun Griffiths have been setting up our site compounds since June to prepare for our major work in October when we will replace a large number of the timber elements of the viaduct.

As a reminder, Barmouth Viaduct will be closed for 16 days while we carry out our restoration work, from 23:40 on 16 October until 5:30 on 2 November. We will also be closing the bridge and walkway to carry out work on the following dates:

- From 00:10 until 10:10 on Sunday 6 September
- From 23:40 on Saturday 12 September until 09:55 on Sunday 13 September
- From 00:10 until 10:10 on Sunday 20 September
- From 23:15 on Saturday 26 September until 09:15 on Sunday 27 September
- From 00:10 until 10:10 on Sunday 4 October
- From 23:15 on Saturday 10 October until 10:10 on Sunday 11 October



## Ymateb i COVID-19

Rydym ni'n dilyn canllawiau'r Llywodraeth ar COVID-19 yn ofalus er mwyn diogelu ein staff a'r cyhoedd. Rydym wedi gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio ac rydym yn hyderus y gallwn gyflawni'r gwaith hwn yn ddiogel yn unol â'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol mewn gwaith adeiladu. Os bydd angen inni newid ein cynlluniau oherwydd COVID-19, byddwn yn rhoi diweddariadau ichi, wrth gwrs.

## Responding to COVID-19

We are carefully following Government guidelines on COVID-19 to protect our staff and the public. We have made changes to the way we work and we are confident that we are able to deliver this work safely in line with social distancing guidelines for construction work. Should we need to amend our plans due to Covid-19, we will of course update you.

# Cynllunio ymlaen llaw

Ymddiheurwn am unrhyw darfu y bydd ein gwaith yn ei achosi, ond nid oes ffordd ddiogel o wneud y gwaith adfer heb gau Traphont Abermaw a'r llwybr troed yn ei hymyl.

Bydd ein cydweithwyr yn Nhrefnidiaeth Cymru'n darparu gwasanaethau bysiau yn lle trenau pan fydd y bont ar gau rhwng gorsafoedd Pwllheli a Machynlleth, a phob gorsaf rhyngddynt. Bydd gwasanaeth bws ychwanegol hefyd i fynd â disgyblion lleol i'r ysgol ac o'r ysgol tra bydd y bont ar gau.

Bydd yr ysgolion yn rhoi'r wybodaeth hon i'r rhieni. Cynghorwn deithwyr, cerddwyr a beicwyr i gynllunio ymlaen llaw a chaniatáu amser ychwanegol ar gyfer y daith.

Er mwyn lleihau effaith ein gwaith, rydym wedi cynllunio ei wneud dros dair blynedd, gan gau'r draphont am gyfnodau byrrach yn hytrach na'i chau yn llwyr am un cyfnod hirach.

Yn 2021, bydd y draphont ar gau o 17 Medi hyd 18 Rhagfyr. Yn 2022 mae'n debyg y bydd ar gau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr.



## Planning ahead

We are sorry for any disruption our work will cause, but there is simply no safe way to carry out the restoration without closing Barmouth Viaduct and the adjoining walkway.

Our colleagues at Transport for Wales will be providing rail replacement services during the closure between Pwllheli and Machynlleth stations, and all stations in between. There will also be an additional bus service for local school pupils to take them to and from school during the closure.

Parents will be given this information by their schools. Our advice for passengers, pedestrians and cyclists is to plan ahead and allow additional time for travelling.

To reduce the impact of our work, we have planned for it to take place over three years, with shorter closures rather than one longer full closure.

In 2021, the viaduct will be closed from 17 September until 18 December. The closure in 2022 is likely to be between October and December.

## Cael gwybod mwy

I gael mwy o wybodaeth am y prosiect, ewch i [www.networkrail.co.uk/barmouth](http://www.networkrail.co.uk/barmouth)

Neu gallwch gysylltu â ni:  
03457 11 41 41  
@NetworkRailWAL  
CRWales@networkrail.co.uk

Os ydych eisiau cael gwybod mwy am y gwasanaethau bysiau yn lle trenau, cysylltwch â:  
Trafnidiaeth Cymru  
[www.tctrenau.cymru](http://www.tctrenau.cymru)  
0333 3211 202 @TfWRail

Neu gwiriwch ar: [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk)




## Find out more

For more information visit [www.networkrail.co.uk/barmouth](http://www.networkrail.co.uk/barmouth)

Or you can contact us:  
03457 11 41 41  
@NetworkRailWAL  
CRWales@networkrail.co.uk

If you want to find out more about rail replacement services, contact:  
Transport for Wales  
[www.tfwrail.wales](http://www.tfwrail.wales)  
0333 3211 202 @TfWRail  
Or check: [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk)



**Pont Abermaw  
Barmouth Viaduct**